


Dan Nawdd y Gwir Barchedig Connop Thirlwall, D. D.,
Arglwydd Esgob Ty Ddewi.

CYFIEITHIAD

O

ADDYSG CHAMBERS I'R BOBL,

(*Chambers's Information for the People,*)

GAN EBENEZER THOMAS, "EBEN FARDD."

RHIF. I.

CYNNWYSIAD

SERYDDIAETH. DAEARDRAITH.

Athroniaeth llythyrennau,—ysgrifen,
Dysg ryfedd yw'n ddiau;
Ynddi cawn i'n llawn wellau,
DDUWDOD Y CELFYDDYDAU.—*Dewi Wyn.*

PWLLHELI:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD (TRWY GANIATTAD MRD. W. & R. CHAMBERS,)
GAN ROBERT EDWARDS, HEOL PENLAN.

1849.

[PRIS CHWE' CHEINIOG.]

rhyw rwymedigaeth arbennig, hwyrach yn dyddio o gyfnod ei brentisiaeth. Roedd gan Thomas Williams, Crucywel, er enghraifft, gangen ym Mryn-mawr, yng nghanol y gweithfeydd haearn. Sut, tybed, y llwyddodd Edwards i fynd â'r holl gopïau i lawr i'r de? Â cheffyl a chert? Neu, a fentrodd y cwbl ar long o harbwr Pwllheli?

Daeth y gyfrol gyntaf allan tua diwedd Medi neu ddechrau Hydref 1851. Sut y gwerthodd hi ni wyddom yn iawn ond mae'n amlwg fod copïau o'r rhifynnau ar ôl gan i Hugh Humphreys eu prynu a'u rhwymo yn 1856, a chyhoeddi detholiad. Troi ei gefn ar ei golledion a wnaeth Robert Edwards. Diflannodd. Mae'r ychydig bach o wybodaeth sydd wrth law yn awgrymu, fel yr wyf eisoes wedi sôn, fod Edwards wedi gadael i'w dad ddelio â'r canlyniadau.

Cyn bod sôn am ddechrau cyhoeddi rhifynnau'r ail gyfrol dechreuodd Thomas Gee gyhoeddi'r *Gwyddoniadur Cymreig*. Daeth y rhifynnau cyntaf allan yn 1854. Gofalwyd fod hwnnw'n cynnwys erthyglau ysgrythurol yn y rhifynnau agoriadol i blesio'r Cymry, ac fe lwyddwyd. I ba raddau, tybed, y dysgodd Thomas Gee o fethiant *Addysg Chambers?*

Serch hynny, roedd Hugh Humphreys yn teimlo'n ddigon hyderus ar ôl prynu beth oedd yn weddill o'r gyfrol gyntaf yn 1856 i ddechrau cyhoeddi rhifynnau ar gyfer yr ail gyfrol, a rhwymo honno yn 1860. Ond fe gafodd Humphreys broblem efo'r ail gyfrol nad oedd Robert Edwards wedi gorfod ei hwynebu.

Derbyniwyd y gyfrol gyntaf gyda llawenydd gan adolygwyr nifer o'r cyfnodolion enwadol, er enghraifft, *Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, *Y Drysorfa*, *Seren Gomer*, *Y Tyst Apostolaidd*, ond ni roddwyd sylw gan rai eraill, fel *Y Dysgedydd*. Roedd y Parchg. John Jones, Talysarn, yn ôl ei *Gofiant*, yn dderbynnydd cyson o rifynnau'r gyfrol gyntaf ac yn cymeradwyo yn fawr y gwersi a geid ynddynt. Ond pan ddechreuodd rhifynnau'r ail gyfrol ymddangos yn 1856 teimlodd John Jones fod cyfraniad yr Hollalluog i'r cread yn cael ei anwybyddu, ac ar ôl iddo dynnu sylw at y peth mewn pregeth yng Nghaernarfon gwelwyd llythyrau yn ymosod arno yn y wasg. Cafwyd cyfres hir o lythyrau, o blaid ac yn erbyn y gweinidog, yn *Yr Herald Cymraeg* i ddechrau ac yna yn *Yr Amserau*. Bu diddordeb mawr yn y pwnc a phan ddôi'r papurau allan o'r wasg roedd gwerthwr papurau dall yng Nghaernarfon wedi deall hynny i'r dim ac yn gweiddi, 'John Jones, Talsarn, yn erbyn *Addysg Chambers i'r Bobl*' ar dop ei lais!

Ymhlith y rhai a ymunodd yn y dadleuon gan amddiffyn y cyhoeddiad roedd John Morris-Jones. Mae'n werth nodi, hwyrach, mai *Addysg Chambers* yn Saesneg, nid y cyfieithiad Cymraeg, oedd ym meddiant y gŵr a oedd am fod yn gymaint o arbenigwr ar y Gymraeg yn y blynyddoedd i ddod.

Ni fu ail argraffiad o *Addysg Chambers* fel gwaith cyflawn ac mae'n debyg mai llwyddiant *Y Gwyddoniadur* oedd i gyfri am hynny. Roedd *Addysg Chambers* eisoes *'out of date'* o fewn deng mlynedd iddo ddechrau ymddangos. Serch hynny roedd ei ymddangosiad yn bwysig, y cyntaf o'i fath yn y maes. Ceisiodd hyrwyddwyr *Addysg Chambers* wneud rhywbeth yn erbyn y llif dros y Gymraeg. Rwy'n credu fod rhaid derbyn fod amharodrwydd ymhlith y prif weisg yng Nghymru i fentro cyhoeddi'r *Addysg*, a hynny a arweiniodd at lwytho'r cyfrifoldeb ar ysgwyddau argraffwr dibrofiad mewn busnes, Robert Edwards. Yr ymdrech i gael gwasg ar ei gyfer ef a arweiniodd at fynd â'r gwaith o argraffu a dosbarthu i le a oedd yng nghanol y ganrif ddiwethaf mor anghysbell â Phwllheli.

Ni allaf ddweud, y tu hwnt i bob amheuaeth, mai Carnhuanawc oedd yr un a ysbrydolodd Robert Edwards i ymgymryd â'r gwaith o argraffu a chyhoeddi *Addysg Chambers i'r Bobl* ond hyderaf fy mod wedi llwyddo i ddangos mai ef, yn anad neb arall, oedd debycaf o fod wedi gwneud y gwaith.

Mae gan addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ddyled fawr i bobl fel Carnhuanawc a safodd yn hyderus dros ei argyhoeddiadau pan oedd cymaint o bobl eraill yn anobeithio. Mae'r ddyled i Robert Edwards, yr argraffwr ifanc, dibrofiad ond yn llawn tân dros ei iaith, hefyd i'w chydnabod; ond nac anghofiwn ei dad, y gweinidog Wesla, y Parchg. Evan Edwards. Heb ei aberth ef y mae'n bosib na fyddai ei fab fyth wedi cael y cyfle i argraffu *Addysg Chambers i'r Bobl*.